Tasg 1

Cyfandir o hanes

1. Mae “Hen Wlad Fy Nhadau” yn anthem sy'n annwyl i ni yng Nghymru. Sawl anthem arall o wahanol wledydd gallwch chi eu henwi, neu'n well fyth, eu canu?

2. Petai rhaid i chi ddewis anthem newydd ar gyfer yr Undeb Ewropeaidd, pa gân fyddech chi’n ei dewis a pham? Cofiwch fyddai’n rhaid i chi gadw 28 o wledydd yn hapus!

3. Ceisiwch feddwl pa ganeuon pop yr ydych chi’n hoff ohonyn nhw yn Gymraeg, Saesneg neu unrhyw iaith arall. A oes yna eiriau yn y rhain sy’n cyfleu syniad o undod, perthyn, cytundeb neu gyd-weithio?